

## Clytiau go iawn

### Eisiau arbed arian?

**Eisiau lleihau gwastraff a helpu'r amgylchedd?**

**Beth yw'r ateb?**

**Beth am drïo naps go iawn?**

**Rydym yn cynnig pecyn werth £30 neu docyn werth £30 i'w wario ar naps!**



Gall 1 babi ddefnyddio hyd at 5,000 o naps  
Gall 1 naps gymryd hyd at 300 mlynedd i bydru  
Gall naps sy'n cael eu taflu gostio hyd at £1300  
Mae defnyddio naps go-iawn yn helpu lleihau  
gwastraff, yn gallu bod yn rhatach ac yn edrych yn  
ddel dros ben.



Mae Cyngor Gwynedd eisiau i fwy o bobl ddefnyddio clytiau go iawn er mwyn lleihau faint o wastraff sydd yn mynd i'r bin gwyrdd/bagiau duon ac i safleoedd tirlenwi

Rydym yn cynnig un ai pecyn profi neu gynllun tocyn sydd werth £30.

### Cynllun Pecyn Profi

Rydym yn cynnig pecyn profi clytiau go iawn sydd werth £30, sydd yn cynnwys dau glwt go iawn, clwt amlap, leinwyr ac ati.

NEU

### Cynllun Tocyn

Rydym yn cynnig tocyn werth £30 i wario ar clytiau go iawn, clwt amlap, neu leinwyr neu eitemau atodol gydag arwerthwyr lleol penodol (rhestr ar gael).

Bod yn rhan:

Er mwyn bod yn gymwys i gael y pecyn neu'r tocyn, mae'n rhaid i chi:

- Fyw yng Ngwynedd
- Lenwi a dychwelyd y ffurflen gais yma
- Fod â phlentyn sydd yn gwisgo clytiau yn barod neu yn disgwyl plentyn
- Anfon copiâu o gerdyn mamolaeth neu dystysgrif geni'r plentyn

I wybod mwy am y cynllun cysylltwch â ni

E-bost: [ailgylchu@gwynedd.llyw.cymru](mailto:ailgylchu@gwynedd.llyw.cymru)

Ffôn: 01766 771 000

## Llenwch y ffurflen isod, atodwch y dogfennau perthnasol a'i anfon yn ôl atom

Ffurflen Gais cynllun clytiau go-iawn Cyngor Gwynedd

Enw: .....

Cyfeiriad:.....

.....

..... Côt Post:.....

Rhif ffôn:.....

Enw'r plentyn:.....

Dyddiad geni'r plentyn: ..... / ..... / .....

Neu Dyddiad disgwyl: ..... / ..... / .....

Rwyf eisiau pecyn prawf wedi ei anfon ataf NEU

Rwyf eisiau tocyn werth £30 i wario ar naps go iawn gydag arwerthwyr lleol

Ydych chi wedi cofio atodi?

Prawf eich bod yn disgwyl neu o enedigaeth plentyn e.e. copi o gerdyn mamolaeth neu dystysgrif geni

Bydd Cyngor Gwynedd yn cadw eich manylion er budd y cynllun yma. Fe allwn gysylltu gyda chi am wybodaeth am eich profiad o'r cynllun. Bydd yr wybodaeth yma yn gyfrinachol.

Llofnod: .....

Anfonwch y ffurflen gais hon wedi ei chwblhau a'r copiâu o dystiolaeth at:

Tîm Ailgylchu, Cyngor Gwynedd, Stad Ddiwydiannol Cibyn,  
Caernarfon, Gwynedd. LL55 2BF

**Diolch yn fawr**